
# Yr Ysbryd Glân yn dod


www.lambsongs.co.nz    Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)    Lluniau: Richard Gunther




**Cyn i Iesu fynd i fyny i'r nefoedd fe ddywedodd wrth ei ddisgyblion am aros yn Jerwsalem hyd nes y byddent yn derbyn pŵer gan Dduw.**



**Wedi i Iesu fynd i fyny i'r nefoedd fe wnaeth rhai o'i ffrindiau gyfarfod â'i gilydd i fyny'r grisiau mewn tŷ yn Jerwsalem ac fe wnaethon nhw aros, yn union fel yr oedd Iesu wedi dweud wrthynt am ei wneud.**



**Yn sydyn fe glywson nhw wynt cryf yn chwythu ac yn ysgwyd y tŷ ble roedden nhw'n aros. Roedd Duw wedi anfon ei Ysbryd Glân.**



**Llanwodd nerth yr Ysbryd Glân pob un o'r disgyblion. Fe welson nhw rywbeth oedd yn debyg i fflamau uwch eu pennau ac roedden nhw'n teimlo fel pe bai Duw yno gyda nhw yn y fan a'r lle.**



**Roedd y fflamau'n llachar ac yn dawnsio yn yr awyr ond doedden nhw ddim yn llosgi'r disgyblion. Roedd eu calonnau'n llawn o gariad Duw a dyna nhw'n ei ganmol.**



**Nawr fe allai ffrindiau Iesu siarad mewn ieithoedd doedden nhw ddim wedi eu dysgu! Gwnaeth yr Ysbryd Glân nhw'n ddewr hefyd! Roedden nhw eisiau i bawb gael gwybod am Iesu!**



**Fe aeth y disgyblion allan at y bobl oedd yno o wledydd eraill ac fe siaradon nhw,yn iaith y bobl rheini, gan ddweud wrthynt fod Iesu wedi dod yn ôl o farw'n fyw ac roedd pawb yn y dyrfa yn eu deall nhw.**



**Pan ddaeth yr Ysbryd Glân i'w bywydau roedd yn gychwyn rhywbeth newydd sbon. Daeth llawer iawn i gredu yn Iesu a dod i'w ddilyn oherwydd y diwrnod rhyfeddol hwn.**